Rhif: **WG20104**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cwricwlwm Cymru

## Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach

Dyddiad cyhoeddi: **22 Hydref 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **17 Ionawr 2014**

# Cwricwlwm Cymru

## Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **17 Ionawr 2014** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Claire Habberfield<br>Y Tîm Deddfwriaeth<br>Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhadbost NAT 8910<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Ffôn: 029 2082 6893 |

© Hawlfraint y Goron 2013
WG20104

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **1**

**1. Crynodeb gweithredol** **3**

**2. Cefndir yr adolygiad: cam 1 a cham 2** **6**

**3. Y cwricwlwm** **9**

3.1 Y sefyllfa bresennol 9

3.2 Y ddadl dros newid 10

3.3. Cynigion ar gyfer newid 13

**4. Asesu** **18**

4.1 Y sefyllfa bresennol 18

4.2 Y ddadl dros newid 19

4.3. Cynigion ar gyfer newid 21

**5. Cynigion ar gyfer gweithredu** **36**

**Atodiad: Modelau posibl ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd** **37**

Sut y gellid defnyddio'r dull hwn i gytuno ar raddfa diwedd Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer pob dysgwr 39

## Rhagair y Gweinidog



Yn ystod y 18 mis diwethaf, gwnaed nifer o newidiadau pwysig iawn i'n system addysg gyda'r nod o godi safonau ar draws y system, a lleihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Ymhlith y newidiadau pwysicaf mae cyflwyno'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (FfLlRh) a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 9. Yn wir, dyma'r newidiadau pwysicaf i'n system addysg ni yma yng Nghymru ers datganoli. Cafodd yr Adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru ei sefydlu fis Hydref 2012 i gynorthwyo gyda sefydlu'r newidiadau hyn ym maes addysg yng Nghymru.

Rwy'n hollol argyhoeddedig bod yn rhaid codi safonau addysgol yng Nghymru ar gyfer pob un o'n dysgwyr, a bod angen codi lefelau llythrennedd a rhifedd. O wneud hynny, gallwn leihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Felly, rwy'n croesawu'r cyfle hwn i ystyried y ffordd orau o sefydlu'r FfLlRh a'r profion fel rhan annatod o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, a sicrhau bod ein blaenoriaethau'n briodol a bod ein holl athrawon mewn sefyllfa i allu addysgu llythrennedd a rhifedd.

Mae'r cynigion sy'n cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon yn seiliedig ar drafodaethau gydag ystod o randdeilliaid, ac ar dystiolaeth arfer gorau yn rhyngwladol – cyfuniad nerthol. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi nodi ystod eang o faterion pwysig iawn sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas gwreiddiol yr adolygiad hwn i raddau helaeth iawn, ac sy'n faterion yr wyf yn awyddus iawn i edrych yn fanylach arnynt.

Hefyd, mae grwpiau gorchwyl a gorffen y cwricwlwm sydd wedi adrodd imi yn ddiweddar fel rhan o'r adolygiad hwn wedi codi rhai materion pwysig pellgyrhaeddol sy'n haeddu ystyriaeth bellach. Er enghraifft, mae'r adolygiad o TGCh mewn ysgolion wedi argymell bod cyfrifiadura yn dod yn elfen allweddol o'n cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Mae'n iawn ein bod yn ystyried pob un o'u hargymhellion fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Gyda'i gilydd, byddai pob un o'r newidiadau posib hyn i'r cwricwlwm yn golygu tarfu llawer ar ein ymarferwyr yn ystod cyfnod pan ydym am eu cefnogi wrth ddysgu llythrennedd a rhifedd. Am y rhesymau hyn, rwyf wedi penderfynu cynnal yr adolygiad hwn mewn dau gam. Bydd cam 1 – a'r cam y mae'r ddogfen ymgynghori hon yn delio ag ef yn bennaf – yn canolbwyntio ar y newidiadau i'r cwricwlwm ac i asesu a fydd yn cryfhau ac yn cefnogi'r broses o addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae cam 2 – fydd ond yn cael effaith unwaith y bydd y FfLlRh wedi cael cyfle i sefydlu'n iawn – yn rhoi'r cyfle inni wneud rhywbeth unigryw dros Gymru: sef cyflwyno cwricwlwm **ar gyfer** Cymru yn benodol – a bod i honno weledigaeth glir ar gyfer addysg yr holl ffordd o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, ac ar gyfer y gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd yng nghyd-destun yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Rhaid i hon fod yn weledigaeth a fydd yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'n plant, waeth beth yw eu cefndir, er mwyn iddynt allu mwynhau bywyd llawn a llwyddo fel dinasyddion y byd.

Bydd cam 2 yn edrych ar y materion mawr sy'n gysylltiedig â chynllun y cwricwlwm. Bydd yn edrych ar sut y gallwn gynnig mwy o hyblygrwydd i'r ymarferwyr hynny sy'n dweud wrthym bod gormod o elfennau o fewn cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Bydd yn edrych ar ffyrdd y gallwn ddod â phwrpas yn ôl i Gyfnod Allweddol 3, sydd yn ôl rhai ymarferwyr wedi mynd yn ystafell aros ar gyfer TGAUau. Yn benodol, bydd yn ystyried ffyrdd y gallwn roi'r cyfle i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 gamu y tu allan i'r cwricwlwm ac i fynd ar ôl eu diddordebau eu hunain. Maent yn haeddu'r cyfle i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt eisoes a hefyd i ddatblygu sgiliau newydd, mewn cyd-destun unigryw sy'n ystyrlon iddynt hwy fel unigolion. Rwyf hefyd yn awyddus i ystyried opsiynau ar gyfer trefnu'r cwricwlwm mewn modd a fydd yn helpu i gyflawni fy ymrwymiad i leihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion busnes a'r economi gan gynnwys rôl hollbwysig gwyddoniaeth – gan adlewyrchu yr ymrwymiadau a wnaethpwyd yn *Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru*: *Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru* a sicrhau bod 'pynciau STEM yn flaenllaw o fewn cwricwla modern, heriol i fyfyrwyr yng Nghymru'. Rwyf hefyd am edrych eto ar safle ieithoedd yn y cwricwlwm, ac, yn olaf ond nid y lleiaf o bell ffordd, rwyf am edrych eto ar y Cwricwlwm Sylfaenol i sicrhau bod gennym gwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Byddaf yn cyhoeddi manylion pellach cam 2 yr adolygiad maes o law. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rwy'n hyderus y bydd rhain, ein cynigion cyntaf ar gyfer sefydlu llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach o fewn y cwricwlwm Cymru newydd, yn sail i'n gweledigaeth ar gyfer addysg, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed eich barn arnynt.



Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Hydref 2013

# 1. Crynodeb gweithredol

Ym mis Hydref 2012 sefydlwyd yr Adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru i ystyried y trefniadau presennol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad i ystyried y trefniadau asesu ehangach sy'n cael eu harfer yn ein hysgolion a chyflwyno argymhellion ynghylch unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod y FfLlRh, a'r profion, yn rhan o ddull cydlynol o weithredu yn hyn o beth. Roedd hefyd i ystyried a yw'r disgwyliadau a nodir yng ngorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol o ran yr hyn y dylai plant ei wybod ac o ran yr hyn y dylent fedru ei wneud, yn ddigon heriol ac a yw'r disgwyliadau hynny'n gydnaws â'r disgwyliadau yn y FfLlRh. Hyd yma, mae'r adolygiad wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr ac wedi comisiynu gwaith ymchwil annibynnol i ddatblygu ei gynigion ar gyfer newid.

Mae'r ddogfen yma felly yn ystyried yn bennaf y cynigion ar gyfer newid ein trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac ar gyfer asesu fydd yn cefnogi ac yn cryfhau y dull o ddysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. Bydd hefyd yn sicrhau bod y safonau cyrhaeddiad o fewn ein Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen), ac yn ein rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (Cyfnodau Allweddol 2–4) yn cyd-fynd â'r rhai sydd wedi'u pennu yn y FfLlRh.

Wrth gasglu ei dystiolaeth, mae'r adolygiad wedi casglu canfyddiadau sydd â goblygiadau ehangach fydd angen eu hystyried ymhellach. Hefyd, mae grwpiau gorchwyl a gorffen y cwricwlwm ar y celfyddydau mewn addysg, dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn ysgolion yng Nghymru, y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru, ysgolion a gweithgarwch corfforol a Chymraeg ail iaith sydd wedi adrodd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ddiweddar yn codi rhai materion pwysig iawn a phellgyrhaeddol sy'n haeddu cael eu hystyried yn iawn.

Gan bod corff y dystiolaeth sydd wedi'i chreu o ganlyniad i'r adolygiad cyntaf o randdeiliaid, wedi'i chyfuno gydag argymhellion yr amrywiol grwpiau gorchwyl a gorffen, yn mynd ymhell y tu hwnt i gylch gwaith gwreiddiol yr adolygiad, penderfynwyd cymryd dull cam wrth gam o fynd i'r afael â'r adolygiad.

Bydd cam 1 (sef yr hyn y bydd y ddogfen hon yn delio'n bennaf ag ef) yn canolbwyntio ar gryfhau addysgu llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach, gan sicrhau parhad a datblygiad o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.

Bydd cam 2 yn canolbwyntio ar gynllun y cwricwlwm ar bob cam/cyfnod addysg i sicrhau bod gennym gwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Byddwn yn ystyried:

- yr awgrym bod Cyfnod Allweddol 2 yn cynnwys gormod o elfennau
- ail-ddiffinio pwrpas Cyfnod Allweddol 3, gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o roi amser i ddysgwyr ddatblygu eu meysydd penodol eu hunain o ddiddordeb sy'n gysylltiedig â thema neu bwnc penodol, ar y

cyd o bosib â sefydliadau y tu allan i'r ysgol, gan dderbyn cymorth ganddynt
- datblygu'r cysyniad o 'raddio' ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 i nodi'r pontio i Gyfnod Allweddol 4
- sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion busnesau, gan gynnwys rôl hollbwysig gwyddoniaeth
- ystyried safle ieithoedd o fewn y cwricwlwm
- cynnwys penodol o ran pynciau a chynnwys trawsgwricwlaidd
- y Cwricwlwm Sylfaenol.

Yng ngham 1 rydym yn cynnig diwygio y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio presennol ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol (yn y Cyfnod Sylfaen) a Chymraeg, Saesneg a mathemateg (ar ôl y Cyfnod Sylfaen). Bydd y dogfennau diwygiedig hyn yn pennu'r disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn i ategu dull y FfLlRh, a bydd yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng sgiliau a chynnwys sy'n benodol i bynciau Cymraeg, Saesneg a mathemateg a sgiliau llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd. Bydd y model hwn yn ymestyn o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 i sicrhau parhad a datblygiad tuag at y TGAUau newydd yn y Gymraeg, Saesneg a'r Technegau Rhifedd a Mathemateg (teitlau dros dro).

Hefyd, yn seiliedig ar ein hadolygiad cychwynnol o'r dystiolaeth, ac, yn hollbwysig, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag elfennau sgiliau Bagloriaeth Cymru, rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer sgiliau ehangach o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Ystyrir bod y sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd ac maent yn cynnwys:

- meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- cynllunio a threfnu
- creadigrwydd ac arloesi
- effeithiolrwydd bersonol
- llythrennedd ddigidol.

Rydym yn ymgynghori ar y sgiliau hyn 'mewn egwyddor' yng ngham 1, ac, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, bydd cynigion manylach yn cael eu cynnwys yng ngham 2.

## Asesu

Rydym yn cynnig ail-ffocysu y trefniadau asesu i gynnwys llythrennedd a rhifedd. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylai trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd pob cyfnod addysg gynnwys asesiad cyfunol o lythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol a Chymraeg, Saesneg a mathemateg, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd fel y'i diffinnir gan y FfLRh.

## Y Cyfnod Sylfaen

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â'n cynigion ar gyfer llythrennedd a rhifedd, rydym yn cynnig ein bod yn cadw'r gofyniad statudol i adrodd i Lywodraeth Cymru ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Byddai rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn derbyn yr wybodaeth hon hefyd ac yn parhau i dderbyn disgrifiad o gynnydd mewn Meysydd Dysgu eraill.

## Cyfnod Allweddol 2

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, rydym yn yr un modd yn cynnig y dylai adrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio newydd Cymraeg, Saesneg a mathemateg, fydd yn cynnwys llythrennedd a rhifedd fel y'i diffinnir yn y FfLlRh. Hefyd, rydym yn cynnig bod data asesu diwedd cyfnod gan athrawon ar lythrennedd a rhifedd yn cael ei gryfhau drwy gyflwyno 'tasgau dysgu cyfoethog' trawsgwricwlaidd (tasgau sy'n asesu ystod o sgiliau sy'n cael eu pennu yn y FfLlRh yng nghyd-destun yr amrywiol bynciau y mae'n rhaid i blant eu hastudio).

## Cyfnod Allweddol 3

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, rydym yn cynnig y dylai adrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio newydd Cymraeg, Saesneg a mathemateg, fydd yn cynnwys llythrennedd a rhifedd fel y'i diffinnir gan y FfLlRh. Hefyd, byddai rhieni/gofalwyr yn derbyn adroddiadau blynyddol ar bob pwnc sydd yn y cwricwlwm statudol a disgrifiad diwedd cyfnod o gynnydd yn y meysydd hynny. Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad statudol i gynnal asesiad cyfunol o wyddoniaeth a Chymraeg ail iaith ar ddiwedd y cyfnod hwn ac i adrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar hyn. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu dileu'r gofyniad statudol i adrodd ar gynnydd yng ngweddill y pynciau statudol i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod allweddol hwn.

## Ymgynghori a gweithredu

Gofynnir am eich barn mewn perthynas â'r cynigion hyn, a byddwn yn manylu arnynt maes o law o fewn y ddogfen hon. Cynhelir yr ymgynghoriad o 22 Hydref 2013 hyd at 17 Ionawr 2014. Gofynnir am eich sylwadau hefyd ar y cynigion ar gyfer eu gweithredu fel a nodir yn adran 5 y ddogfen hon. Caiff ein bwriadau o ran cam 2 yr adolygiad eu cyhoeddi yn y man.

## 2. Cefndir yr adolygiad: cam 1 a cham 2

Sefydlwyd yr adolygiad hwn ym mis Hydref 2012 i sicrhau nid yn unig bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r profion wedi eu hintegreiddio i'n system addysg yng Nghymru, ond hefyd bod ein disgwyliadau o ran cynnwys a datblygu sgiliau yn ddigon cadarn a heriol.

Mae'r FfLlRh yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ac yn parhau hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, ac mae’r adolygiad hwn yn adlewyrchu hynny. Mae rhai o'n cynigion o reidrwydd yn cael effaith ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ac er y bydd angen i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ddatblygu, rydym yn bendant wedi ymrwymo i'r egwyddorion, yr addysgeg a'r arferion sy'n sail iddo.

Felly hefyd, yng Nghyfnod Allweddol 4 rydym wedi cynnwys cynigion i sicrhau bod mwy o aliniad a datblygu gwell. Er enghraifft, mae'n bwysig eu bod yn cyd-fynd â’r argymhellion a weithredir yn sgil derbyn casgliadau'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Mae’r argymhellion hynny’n sicrhau y bydd y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn berthnasol ac o werth gwirioneddol, ac y byddant yn darparu llwybrau datblygu addas tuag at ddysgu pellach neu fyd gwaith.

### Amseru'r adolygiad

Mae cam cyntaf yr adolygiad (Hydref 2012 hyd heddiw) wedi cynnwys casglu tystiolaeth ac ymgynghori â phrif randdeiliaid ac arbenigwyr, wedi'i ategu gan ganfyddiadau'r grwpiau gorchwyl a gorffen annibynnol ar y celfyddydau mewn addysg, dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn ysgolion yng Nghymru, y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru, ysgolion a gweithgarwch corfforol a Chymraeg ail iaith, yn ogystal ag adroddiad annibynnol gan SCYA ac Arad o'r enw *Asesiad Tystiolaeth Cyflym (ASC) o Draweffaith Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu mewn Gwledydd sydd yn Perfformio’n Dda* (Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn www.cymru.gov.uk/ymchwil). Mae goblygiadau canfyddiadau y cam hwn o'r adolygiad yn mynd ymhell y tu hwnt i gylch gwaith gwreiddiol yr adolygiad, ac, er mwyn eu hystyried yn iawn, penderfynwyd cynnal yr adolygiad mewn dau gam.

#### Cam 1

Mae Cam 1, sef y cam y mae'r ddogfen hon yn ddelio ag ef yn bennaf, yn canolbwyntio ar gryfhau'r dull o addysgu llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach ac yn cynnwys cynigion ar sut y gellid gwneud hyn. Mae hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar barhad a datblygiad ar draws cyfnodau allweddol addysg, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Cafodd y cynigion hyn eu datblygu yn dilyn dadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr adolygiad hyd yma. Rydym yn holi eich barn ar y cynigion yma ar hyn o bryd.

**Cam 2**

Roedd y broses gychwynnol o gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid yn ymdrin yn bennaf â sut oedd modd trefnu y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru mewn ffordd a fyddai'n cefnogi a chryfhau y broses o addysgu llythrennedd a rhifedd yn well. Fodd bynnag, roedd hefyd yn nodi cyfres o faterion ehangach oedd yn haeddu ystyriaeth bellach. Ar yr un pryd, derbyniodd Llywodraeth Cymru adroddiadau yn ddiweddar gan grwpiau gorchwyl a gorffen annibynnol y gofynnwyd iddynt gynnig argymhellion yn y meysydd canlynol:

- y celfyddydau mewn addysg
- dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn ysgolion yng Nghymru
- y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru
- ysgolion a gweithgarwch corfforol
- Cymraeg ail iaith.

Mae argymhellion y grwpiau hyn yn bwysig ac yn bellgyrhaeddol, a mae'n amlwg y bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran eu gweithredu gael eu hystyried yn ofalus yng nghyd-destun y newid ehangach i'r cwricwlwm ac asesu.

Er enghraifft, mewn nifer o achosion mae'r grwpiau yn cynnig cynnwys pynciau newydd yn y cwricwlwm, a mwy o ddyfnder a manylder mewn eraill. Mewn gwrthgyferbyniad, mae ymarferwyr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod Cyfnod Allweddol 2 yn cynnwys 'gormod o elfennau a bod diffyg ffocws', a bod 'athrawon yn teimlo pwysau i gynnwys y cwricwlwm cyfan'. Felly tasg arall ar gyfer yr adolygiad hwn yw darparu cwricwlwm sy'n rhoi sylw i'r angen i gadw cydbwysedd rhwng cynnwys penodol a'r rhyddid i ganiatáu ac i annog ymarferwyr i fod yn greadigol – er yn gadw mewn cof mai llythrennedd a rhifedd yw ein blaenoriaethau, yn enwedig ar gyfer y plant hynny sydd o dan anfantais oherwydd y diffyg graen ar eu hiaith. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn yr adolygiad mwy sylfaenol sy'n cael ei gynnig yng ngham 2.

Fodd bynnag, ar ôl trafod gydag ymarferwyr, daeth yn glir bod llawer ohonynt o'r farn bod Cyfnod Allweddol 3 wedi 'colli ei ffordd' ac nad yw ei bwrpas yn ddigon eglur – gan gyfrannu efallai at y gwaethygu mewn perfformiad a allai ddigwydd wrth i ddysgwyr bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn wir, aeth rhai ymarferwyr mor bell â disgrifio'r cyfnod allweddol hwn fel rhyw gyfnod lle'r oedd y disgyblion yn 'aros yn eu hunfan' nes gwneud TGAU. Bydd cam 2 yr adolygiad yn caniatàu inni edrych ar sut y gallwn ddod â phwrpas newydd i'r cam hwn o addysg. Yn y rhagair i'r ddogfen hon mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi pennu ei fwriad i edrych ar sut y gallwn roi i 'ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 y cyfle i gamu y tu allan i'r cwricwlwm a dilyn eu diddordebau penodol eu hunain yn fwy manwl'. Gallai hyn olygu dysgwyr yn treulio cyfnod o amser yn cynnal astudiaeth fanwl wedi'i ffocysu ar bwnc neu thema benodol – mae'n bosib y byddant yn gwneud hyn gyda sefydliadau y tu allan i'r ysgol, gan gael cymorth ganddynt. Rydym yn dymuno edrych ar y cyfleoedd sy'n bodoli i amgueddfeydd ac orielau, sefydliadau celfyddydol, sefydliadau chwaraeon, sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach,

ymysg eraill, i chwarae rhan mwy amlwg yn y cyfnod hwn o addysg a datblygu diddordebau pobl ifanc a hybu eu brwdfrydedd i ddysgu. Rydym hefyd yn ystyried a ddylem ddatblygu egwyddor o ‘raddio’ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 i nodi'r pontio i Gyfnod Allweddol 4. Bydd cam 2 yr adolygiad hwn yn rhoi'r cyfle inni ddatblygu'r syniadau hyn yn fanylach gan gydweithio gyda arbenigwyr a rhanddeiliaid.

Bydd cam 2 hefyd yn ceisio sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion busnes a'r economi, gan gynnwys rôl hanfodol gwyddoniaeth – gan adlewyrchu'r ymrwymiadau sy'n cael eu gwneud yn *Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru: Agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru* a sicrhau bod ‘pynciau STEM yn flaenllaw mewn cwricwla fodern, heriol ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru’.

Byddwn yn edrych eto ar safle ieithoedd yn y cwricwlwm, gan gynnwys argymhellion pwysig y grŵp gorchwyl a gorffen ar Gymraeg ail iaith.

Yn olaf bydd cam 2 yn edrych eto ar y Cwricwlwm Sylfaenol hefyd i sicrhau parhad a datblygiad o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 a Bagloriaeth Cymru – yng nghyd-destun cwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r materion hyn a godwyd yn ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid ac yng nghyd-destun yr adolygiadau gorchwyl a gorffen, yn faterion mawr ac o bosib yn bellgyrhaeddol. Maent yn golygu bod angen inni edrych ar beth ddylai fod yn y cwricwlwm yn hytrach na beth na ddylai fod ynddo; beth ddylai dysgwyr ei wybod yn yr unfed ganrif ar hugain (cynnwys penodol) a'r hyn y dylent fedru ei wneud (sgiliau). Maent hefyd yn awgrymu bod angen ystyried 'rhyddhau' y cwricwlwm fel bod modd i athrawon ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd a chymryd ymagwedd mwy creadigol a lleol i gynllunio'r cwricwlwm – ac ar yr un pryd mae'r adolygiadau o weithgarwch corfforol, Cymraeg ail iaith a TGCh mewn ysgolion yn awgrymu y dylai'r pynciau hynny fod yn benodol iawn ac yn greiddiol i'r cwricwlwm yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod y materion pwysig hyn yn cael eu hystyried yn iawn, a'n bod yn ehangu'r drafodaeth ac yn thrafod ag ystod llawer ehangach o randdeiliaid – fydd yn bosibl o fewn cam 2. Er ein bod yn ceisio dechrau'r sgwrs hon yn y dyfodol agos, mae'n amlwg na fyddai newidiadau i'r trefniadau presennol o ganlyniad i gam 2 yr adolygiad yn cael eu cyflwyno tan i newidiadau yng ngham 1 sy'n gysylltiedig â'r FfLlRh a’r profion gael cyfle i sefydlu. Bydd manylion pellach am gam 2 yr adolygiad yn cael eu cyhoeddi maes o law.

# 3. Y cwricwlwm

## 3.1 Y sefyllfa bresennol

Mae addysg yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd i basio biliau. Fodd bynnag, rydym wedi llunio ein cwricwlwm a'n trefniadau asesu presennol drwy gynnal cyfres o adolygiadau cyfnodol yn sgil Deddf Diwygio Addysg 1988. Pwrpas y Ddeddf Diwygio Addysg oedd cyflwyno'r Cwricwlwm Sylfaenol (a oedd ar y pryd yn cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol) a darparu fframwaith deddfwriaethol i sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu , a chysondeb o ran cyfleoedd a safonau.

Ers Deddf Diwygio Addysg 1988, cynhaliwyd tri adolygiad pellach o'r cwricwlwm yng Nghymru (heb gynnwys yr adolygiad presennol). Roedd yr adolygiad diweddaraf (2008) yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau, themâu trawsbynciol, hyblygrwydd a sicrhau y byddai’r cwricwlwm yn hollol addas ar gyfer y dyfodol ac y byddai’n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain.

| **Gofynion y cwricwlwm cenedlaethol, mis Medi 2013** | | |
|---|---|---|
| **Y Cyfnod Sylfaen** | | |
| Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (y FfLlRh) | Y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (anstatudol) | Saith Maes Dysgu<br>- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>- Datblygiad Mathemategol<br>- Datblygu'r Gymraeg<br>- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd<br>- Datblygiad Corfforol<br>- Datblygiad Creadigol<br>a fframwaith ar gyfer y Cwricwlwm Sylfaenol (mewn ysgolion a gynhelir) ar gyfer addysg grefyddol. |
| **Cyfnod Allweddol 2** | | |
| Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (y FfLlRh) | Y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (anstatudol) | Rhaglenni astudio ar gyfer:<br>- Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>- Cymraeg ail iaith, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol (pynciau sylfaen)<br>a fframweithiau ar gyfer<br>- y Cwricwlwm Sylfaenol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg grefyddol, ac addysg rhyw. |
| **Cyfnod Allweddol 3** | | |
| Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (y FfLlRh) | *Y Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed* yng Nghymru (anstatudol) | Rhaglenni astudio ar gyfer:<br>- Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>- Cymraeg ail iaith, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac ieithoedd tramor modern (pynciau sylfaen)<br>a fframweithiau ar gyfer<br>- Y Cwricwlwm Sylfaenol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol, addysg rhyw a gyrfaoedd a'r byd gwaith. |
| **14–19** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Y Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (anstatudol)<br>Sgiliau eraill, gan gynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | Rhaglenni astudio ar gyfer:<br><br>- Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>- addysg gorfforol a Chymraeg ail iaith (pynciau sylfaen).<br><br>Y Cwricwlwm Sylfaenol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol, addysg rhyw, a gyrfaoedd a'r byd gwaith. |

## 3.2 Y ddadl dros newid

Mae'r cynigion a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar gasgliadau adolygiad cychwynnol o dystiolaeth rhanddeiliaid. Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion ar ôl trafod ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae wedi ei ategu gan adroddiad annibynnol a baratowyd gan y SCYA a chwmni Arad, sef *Asesiad Tystiolaeth Cyflym (ASC) o Draweffaith Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu mewn Gwledydd sydd yn Perfformio'n Dda*. I weld yr adroddiad llawn, ewch i www.cymru.gov.uk/ymchwil

Roedd yr adolygiad o dystiolaeth rhanddeiliaid yn cynnwys trafodaethau gydag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys, ymysg eraill, ymarferwyr, awdurdodau lleol ac academyddion. Er mwyn sicrhau bod y trafodaethau mor fuddiol â phosibl, cafodd sylwadau eu nodi mewn modd nad oedd yn eu priodoli i ysgol benodol. Mae'r adolygiad hefyd yn adlewyrchu casgliadau'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â datblygu sgiliau.

Pwrpas yr adolygiad o dystiolaeth rhanddeiliaid oedd nodi'r hyn sy'n dda ynghylch y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol, ym marn y rhanddeiliaid, yn enwedig ymarferwyr. Hefyd gofynnwyd iddynt ddweud beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio yn eu barn nhw, a beth y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa. Gofynnwyd y cwestiynau hyn i gyd yng nghyd-destun cyflwyno'r FfLlRh a'r profion.

Casglwyd tystiolaeth y rhanddeiliaid mewn dau gam. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar ysgolion a oedd wedi cael profiad eisoes o weithredu'r FfLlRh a'r profion (er enghraifft y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu canllawiau i gefnogi'r FfLlRh). Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd o'r trafodaethau hyn i nodi'r themâu y dylid eu hystyried. Roedd yr ail gam yn canolbwyntio ar gynnal trafodaethau gydag ysgolion uchel eu perfformiad (er enghraifft ysgolion ym Mand 1 a/neu'r rheini a gafodd eu nodi gan Estyn fel rhai a oedd yn defnyddio arferion da i addysgu llythrennedd a rhifedd). Roedd yn ceisio nodi arferion da yn ogystal â ffyrdd posibl o roi sylw i'r themâu a oedd wedi codi o'r trafodaethau yn y cam cyntaf.

Isod, ceir dadansoddiad manylach o gasgliadau'r adolygiad cychwynnol hwn o dystiolaeth rhanddeiliaid, a hefyd y dystiolaeth o arferion da a ddefnyddir mewn gwledydd eraill a gafodd ei nodi yn adroddiad y SCYA a chwmni Arad. Y dadansoddiad hwn sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer y newidiadau a nodir yn adran 3 a 4 y ddogfen ymgynghori hon.

## Dadansoddiad o dystiolaeth rhanddeiliaid

**“Mae'n rhaid i'r FfLlRh gael ei integreiddio o fewn ein trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu.”**

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cefnogi'r FfLlRh. Rydym yn gwybod hynny o'r adolygiad cychwynnol o dystiolaeth, a hefyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ehangach a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r FfLlRh yn 2012. Yn ystod cam cyntaf yr adolygiad o dystiolaeth roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio'r FfLlRh ar draws y cwricwlwm – ac maent eisoes yn diwygio eu cynlluniau gwaith i nodi cyfleoedd i wella dysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi.

Ar yr un pryd rydym yn ystyriol o'r diffyg cyfateb rhwng lefelau disgwyliad sy'n cael eu pennu yn y FfLlRh a'r rhai sy'n cael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a’r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Hefyd, roedd nifer o randdeiliaid yn cyfeirio at yr hyn yr oeddynt yn ystyried fel 'datgysylltiad' wrth bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn mynegi pryder gan eu bod yn teimlo bod diffyg canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, ac i un nodi mai ‘un o anfanteision y dull o ddysgu drwy brofiadau yn y Cyfnod Sylfaen oedd bod rhai athrawon yn peidio â dysgu llythrennedd a rhifedd yn ffurfiol’.

Roedd rhanddeiliaid eraill yn nodi yr angen am eglurder wrth ddysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun Cymraeg, Saesneg a mathemateg er enghraifft yng Nghyfnod Allweddol 3. Yn benodol roeddent yn pwysleisio ei fod yn bwysig i beidio â chodi golwg o'r angen i addysgu'r sgiliau hynny er eu mwyn eu hunain cyn iddynt gael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y cwricwlwm, a bod gan adrannau Cymraeg, Saesneg a mathemateg ran i'w chwarae yma.

Bwriad y cynnig yn adran 3.3 ynghylch datblygu Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen yw mynd i’r afael â hyn. Drwy ddod â sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu disgrifio yn y FfLlRh, a'r sgiliau a'r cynnwys yn y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio hyn at ei gilydd mewn un lle, rydym yn sicrhau bod y lefelau disgwyliad yn cyd-fynd â'r rhai sy'n cael eu pennu yn y FfLlRh, ac yn nodi ein disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn. Ar yr un pryd, bydd y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd hyn yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng yr hyn y dylid ei ddysgu ar sail pwnc penodol a'r hyn y dylid ei ddysgu ar draws y cwricwlwm.

**“Dylid dysgu sgiliau ar draws y cwricwlwm.”**

Roedd barn gyffredinol ymysg ysgolion sy'n perfformio'n uchel y bu inni siarad â hwy yn ystod yr adolygiad cychwynnol o'r dystiolaeth bod datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn hanfodol. Roedd rhai rhanddeiliaid, yn enwedig

ymarferwyr Cyfnod Allweddol 3 yn teimlo, pe byddai dysgwyr wedi dechrau ar eu haddysg uwchradd gyda sgiliau da, yna byddai eu canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn llawer gwell na'r rhai hynny nad oedd eu sgiliau wedi datblygu cystal. Er bod y mwyafrif yn teimlo bod cynnwys yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ddysgwyr fynd drwy'r ysgol (ac yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 3 wrth edrych tuag at gymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4), roedd lleiafrif yn mynd cyn belled ag awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau o gymharu â chynnwys yn ystod y cyfnodau addysgol hyn.

Roedd yr angen i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, yng nghyd-destun cwricwlwm eang a chytbwys, yn rhywbeth a grybwyllwyd yn y rhan fwyaf o'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid ac roedd barn gyffredinol, er mwyn cefnogi'r broses o addysgu sgiliau, dylem 'ddatblygu cyfres o sgiliau o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3'. Roedd trafodaethau pellach yn tynnu sylw at yr angen i'r gyfres hon o sgiliau ymestyn i Gyfnod Allweddol 4 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Bagloriaeth Cymru. Yn wir, roedd teimlad ei bod braidd yn 'od' i gyflwyno'r sgiliau hyn fel gofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4, pan y dylai'r dysgwyr fod wedi bod yn eu datblygu drwy gydol eu haddysg statudol. Pan drafodwyd y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* presennol, teimlwyd mai'r prif reswm nad oedd y fframwaith hwn wedi cael y sylw haeddiannol oedd, o leiaf yn rhannol, ei fod yn anstatudol a bod athrawon yn ei ystyried fel rhywbeth 'atodol'. Mae felly wedi bod yn her i'r adolygiad ystyried sut y gellid cyfathrebu unrhyw ganolbwyntio o'r fath ar sgiliau trawsgwricwlaidd, fel bod modd sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu mewn modd gyson ym mhob ysgol.

Roedd adroddiad y SCYA a chwmni Arad yn dweud bod gwledydd uchel eu perfformiad yn rhoi pwyslais sylweddol hefyd ar sgiliau ehangach (megis datrys problemau, meddwl ar lefel uchel a chreadigrwydd) – sef sgiliau sy'n helpu'r dysgwr i weithredu'n llwyddiannus yn y byd ehangach. Mae'n deg dweud, ar y cyfan, bod y sgiliau hyn yr un rhai â'r rhai y mae ein rhanddeiliaid wedi cyfeirio atynt fel blaenoriaethau i ddysgwyr eu datblygu a chael mynediad i'r cwricwlwm yng Nghymru, a chwestiwn felly i'r adolygiad oedd sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hynny i ddysgwyr, ac ar yr un pryd gynnal y pwyslais ar eu darparu ar draws y cwricwlwm.

Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylid datblygu cysyniad o fframwaith sgiliau ehangach statudol, a fyddai'n cael ei ddysgu mewn cwricwlwm eang a chytbwys, i'w weithredu'n statudol.

### Adroddiad y SCYA ac Arad

Cynhaliodd y SCYA a chwmni Arad Research asesiad cyflym o'r dystiolaeth, er mwyn archwilio effaith y cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn pum gwlad y mae eu myfyrwyr yn cyflawni'n dda mewn arolygon rhyngwladol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys chwilio'n systematig a defnyddio'r dystiolaeth orau o'r dewis o lenyddiaeth gan ystyried yn benodol dystiolaeth sy'n ymwneud â systemau addysg Canada, y Ffindir, Korea, Seland Newydd a Singapôr. Mae trosolwg bras o'r prif ganfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

- Roedd pob un o'r pum gwlad yn ymdrin â'r un meysydd craidd, sef llythrennedd/iaith gyntaf, mathemateg/ rhifedd a gwyddoniaeth sylfaenol. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd.
- Roedd y pum gwlad yn cynnwys elfennau o'r celfyddydau a'r dyniaethau (neu astudiaethau cymdeithasol), technoleg ac addysg gorfforol. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd.
- Roedd ychydig (iawn) o amrywiaeth o ran y ddarpariaeth o ieithoedd tramor, astudiaethau dinesig a moeseg.
- Roedd cwricwla y pum gwlad yn ymdrin â sgiliau a chymwyseddau allweddol, gan gynnwys meddwl yn feirniadol ac yn greadigol a datrys problemau. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd, er nad yw'r fframwaith sgiliau yn statudol.
- Mae llythrennedd digidol yn rhan annatod o gwricwlwm y pum gwlad, ond nid yw'n cael ei ddarparu fel pwnc ar wahân, ond yn hytrach caiff ei ddarparu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd.
- Mae rhai gwledydd yn rhoi llawer o bwyslais ar entrepreneuriaeth.
- Mae'r ffocws ar sgiliau a chymwyseddau sylfaenol wedi'i nodi'n glir yn y strategaethau cenedlaethol sy'n amlinellu'r sail resymegol a'r disgwyliadau. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd.
- Mae dysgu trawsgwricwlaidd/rhyngddisgyblaethol sy'n seiliedig ar gyd-destunau bywyd go iawn ac sy'n cynnwys themâu cyffredinol yn rhan annatod o’r cwricwla yn y gwledydd penodol uchel eu perfformiad.
- Yn gyffredinol, roedd gofynion cwricwlaidd pob un o’r pum gwlad wedi’u disgrifio’n fras, gan roi llawer o sgôp i’r ysgol/athro addasu cynnwys penodol.
- Roedd pob gwlad yn allblyg ac yn adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd, gan ymgynghori ag ystod o randdeiliaid. Mae hyn yn wir yng Nghymru hefyd.

Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion ar elfennau o ddefnyddio systemau uchel eu perfformiad sydd y tu hwnt i sgôp yr adolygiad hwn, ond er hynny gallant gael goblygiadau ar gyflwyno unrhyw newidiadau dilynol. Mae’r argymhellion hyn yn cynnwys casglu data sylfaenol a data eraill, pwysigrwydd cymorth yr athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ac ystod eraill o ddulliau datblygu athrawon gan gynnwys hyfforddi’r athrawon yn uniongyrchol, athrawon yn hyfforddi ei gilydd a datblygu cymunedau dysgu athrawon i archwilio a datblygu arferion da. Gallwch weld yr adroddiad yn y ddolen ganlynol: www.cymru.gov.uk/ymchwil

## 3.3 Cynigion ar gyfer newid

### Llythrennedd a rhifedd

**“Mae'n rhaid i'r fframwaith gael ei integreiddio o fewn ein trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu.”**

**Cynnig ar gyfer y cwricwlwm**

**Rydym yn cynnig ein bod yn cydnabod cyd-ddibyniaeth hollbwysig gwybodaeth a sgiliau ar ei gilydd ar draws y cwricwlwm i gyd a'r modd y maent yn cyfuno i feithrin dealltwriaeth o gynnwys a chyd-destun, a'n bod yn:**

- **datblygu Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer:**

  **– Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen**
  **– Saesneg, Cymraeg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.**

Mae llythrennedd a rhifedd yn sgiliau trawsgwricwlaidd ac mae'n rhaid iddynt gael eu haddysgu ar draws yr ystod cyfan o gynnwys pynciau os ydynt i gael eu datblygu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae hefyd angen eu haddysgu yng nghyd-destun Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4, cyn y gellir eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae cysylltiad pwysig rhwng y Meysydd Dysgu/pynciau hyn a'r FfLlRh. Ar yr un pryd rydym yn ymwybodol bod angen inni godi disgwyliadau o ran Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4 i gyfateb â'r lefelau sy'n cael eu pennu yn y FfLlRh. Rydym felly'n cynnig datblygu Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a Chymraeg, Saesneg a mathemateg o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 – fydd yn cynnwys y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu disgrifio yn y FfLlRh. Wrth ddatblygu'r rhain byddwn yn bod yn fwy penodol ac yn nodi'r elfennau hynny yn y rhaglenni astudio nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y FfLlRh ac yn pennu ein disgwyliadau ar eu cyfer o flwyddyn i flwyddyn, i ategu'r dull a ddefnyddir yn y FfLlRh. Bydd y rhaglenni astudio newydd yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng sgiliau a chynnwys sy'n benodol i bynciau Cymraeg, Saesneg a mathemateg a sgiliau llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd.

Mae'r adborth gan ymarferwyr hefyd wedi awgrymu bod angen inni bwysleisio datblygu llythrennedd a rhifedd o gychwyn cyntaf y Cyfnod Sylfaen yn dair oed. Maent wedi gofyn am gymorth a chanllawiau ychwanegol i'w galluogi i wneud hyn. Rydym felly'n cynnig ehangu'r FfLlRh i gynorthwyo gyda datblygu llythrennedd a rhifedd rhwng 3–5 oed yn y Cyfnod Sylfaen.

Felly hefyd, er mwyn sicrhau parhad yn y datblygiad o'r Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd drwy Gyfnod Allweddol 4 a chymwysterau, rydym yn cynnig ehangu'r FfLlRh i Gyfnod Allweddol 4 a'r TGAUau newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, rhifedd a mathemateg.

Mae gan yr agwedd hon nifer o fanteision:

- bydd athrawon Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn gallu cael mynediad i'r holl sgiliau a deunydd y mae'n ofynnol iddynt ei addysgu, a hynny mewn un man, gan osgoi'r perygl y byddai rhai elfennau o'r rhaglenni astudio yn cael eu hepgor
- mae hyn yn cadarnhau'r amcan y dylai llythrennedd a rhifedd gael eu haddysgu gan yr athro pwnc hefyd cyn eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm i gyd
- mae'n ein galluogi i wneud y rhaglenni dysgu yn fwy heriol, yn unol â'r FfLlRh
- mae'n rhoi arwydd clir bod gwybodaeth o bwnc a sgiliau yn flaenoriaeth inni
- bydd yn cefnogi cynnydd ar draws yr holl feysydd dysgu gan gynnwys elfennau anstatudol a statudol y Cyfnod Sylfaen.

**Yn benodol, rydym yn cynnig ein bod yn:**

- **diwygio'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen, a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2–4. Bydd y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd yn nodi disgwyliadau blynyddol i ategu'r dull a ddefnyddir yn y FfLlRh. Byddant yn gwahaniaethu'n glir rhwng sgiliau a chynnwys sy'n benodol i bynciau Cymraeg, Saesneg a mathemateg a sgiliau llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd.**

- **ymestyn y model hwn i ymgorffori cynnwys newydd o ran llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 4 oed i sicrhau datblygiad clir ac effeithiol i'r Cyfnod Sylfaen statudol yn bump oed.**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. **A ydych yn cytuno y dylai'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4 fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn i ategu'r FfLlRh?**

2. **A ydych yn cytuno y dylid ymestyn y FfLlRh i gynnwys materion llythrennedd a rhifedd newydd yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 4 oed?**

## Sgiliau ehangach

**Cynnig ar gyfer y cwricwlwm**

**Rydym yn cynnig:**

- **y dylai ‘sgiliau ehangach’ ddod yn elfennau statudol o Cwricwlwm Cymru.**

Yn ogystal â chryfhau'r broses o ddysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno 'fframwaith sgiliau ehangach' trawsgwricwlaidd, ar sail nid yn unig tystiolaeth rhanddeiliaid ac yng nghyd-destun canfyddiadau adroddiad y SCYA ac Arad, ond hefyd, sy'n hollbwysig, sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag elfennau sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Yn ystod yr adolygiad cychwynnol hwn, mae rhanddeiliaid hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd ehangach sydd eu hangen ar gyfer addysg, cymwysterau, y byd gwaith a bywyd yn gyffredinol. Mae hyn eto wedi'i adlewyrchu'n gryf yn narganfyddiadau'r adroddiad gan y SCYA ac Arad, sy'n nodi bod ‘y gwledydd mwyaf llwyddiannus wedi symud at ganolbwyntio ar sgiliau yn ogystal â chynnwys. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar allu'r dysgwyr i ddatrys problemau, meddwl yn feirniadol ac yn greadigol, a chymhwyso gwybodaeth mewn ystod o wahanol gyd-destunau’.

Tra bo adolygiad cwricwlwm 2008 wedi ceisio cynnwys rhai o'r sgiliau hyn yn y rhaglenni astudio, yn ogystal â chyflwyno'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol, nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod sail statudol i ddau o'r pedwar sgil sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith (llythrennedd a rhifedd) erbyn hyn. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu y dylid defnyddio agwedd debyg ar gyfer yr elfennau arfaethedig newydd hyn. Y bwriad yw datblygu'r 'sgiliau ehangach' hyn ar draws pob un o'r pedwar cyfnod addysgol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4, gan roi llwybrau clir ar gyfer datblygu sgiliau o'r Cyfnod Sylfaen i'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, sydd yn cael ei ddiwygio – yn dilyn derbyn argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a oedd yn adroddiad annibynnol – ac o fis Medi 2015 a ddaw yn brif fframwaith ar gyfer cymwysterau i ddysgwyr 14 i 19 mlwydd oed yng Nghymru.

**Yn benodol, rydym yn cynnig:**

- **y dylai sgiliau ehangach ddod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.**

**Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r 'sgiliau ehangach' hyn gynnwys:**

- **meddwl yn feirniadol a datrys problemau – mabwysiadu prosesau beirniadol a rhesymegol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd a llunio ymatebion a datrysiadau**
- **cynllunio a threfnu – sicrhau atebion a gweithredu syniadau a monitro ac ystyried y canlyniadau**
- **creadigrwydd ac arloesedd – meddwl am syniadau, bod yn agored a magu hyder i archwilio syniadau a mynegi barn**
- **effeithiolrwydd personol – ystyried eich hun a deall eich hun ac eraill, ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol: bod yn ddysgwr effeithiol**
- **llythrennedd digidol – 'defnyddio technoleg gwybodaeth gymdeithasol yn hyderus ac yn feirniadol at ddibenion gwaith, hamdden, dysgu a chyfathrebu' (cafwyd yr wybodaeth hon o Agenda Ddigidol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Ewrop).**

Bydd y sgiliau hyn yn rhan o'r cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4, ond ar yr un pryd, mae'n bwysig eu bod yn briodol at yr oedran. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen mae'n bosibl y bydd disgwyl i ddysgwr ddangos eu sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau drwy ddangos manteision ac anfanteision gwahanol ddatrysiadau i broblem weddol syml. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'n bosibl y bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio offer a thechnegau i werthuso modelau sy'n fwyfwy cymhleth fel dadansoddi SWOT neu efelychiad cyfrifiadurol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd y sgiliau yn adlewyrchu'r sgiliau a ystyrir yn hanfodol ar gyfer astudio pellach a chael swydd.

Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, bydd cynigion mwy manwl ynghylch y sgiliau ehangach hyn yn cael eu datblygu, yng nghyd-destun datblygu Bagloriaeth Cymru i'w addysgu o 2015 yn ogystal â cham 2 yr adolygiad hwn.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**3. A ydych yn cytuno mewn egwyddor y dylai 'sgiliau ehangach' ddod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol?**

**4. A ydych yn cytuno y dylai'r sgiliau hyn gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, effeithiolrwydd personol a llythrennedd ddigidol?**

# 4. Asesu

## 4.1 Y sefyllfa bresennol

Mae asesu yng Nghymru wedi ei ddatganoli hefyd ac mae’r trefniadau hynny wedi datblygu mwy a mwy i fod yn wahanol i'r trefniadau sydd ar waith yn Lloegr – er enghraifft cafodd y TASau eu diddymu o'r trefniadau asesu statudol yng Nghymru yn 2004.

| | Gofynion asesu ac adrodd statudol presennol y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Cyfnod Sylfaen | | Cyfnod Allweddol 2 | | Cyfnod Allweddol 3 | |
| | Derbyn a Blwyddyn 1 | Diwedd y Cyfnod Sylfaen | Blynyddol | Diwedd cyfnod | Blynyddol | Diwedd cyfnod |
| **Adrodd i rieni/gofalwyr** | Disgrifiad cryno o gynnydd yn erbyn y saith Maes Dysgu | Disgrifiad cryno o gynnydd yn erbyn y saith Maes Dysgu<br><br>Deilliannau yn erbyn:<br>• Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>• Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Datblygiad Mathemategol | Disgrifiad cryno o gynnydd yn erbyn 11 o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol | Lefelau a gyrhaeddir yn erbyn pynciau craidd:<br><br>Cymraeg/Cymraeg ail iaith<br><br>Saesneg<br><br>mathemateg<br><br>gwyddoniaeth | Disgrifiad cryno o gynnydd yn erbyn 12 o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol | Lefelau a gyrhaeddir yn erbyn pob un o 12 pwnc y cwricwlwm cenedlaethol. |
| **Adrodd i Lywodraeth Cymru** | | Deilliannau yn erbyn:<br>• Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>• Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Datblygiad Mathemategol<br><br>a<br><br>Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Lefelau a gyrhaeddir yn erbyn pynciau craidd:<br><br>Cymraeg/ Cymraeg ail iaith<br><br>Saesneg<br><br>mathemateg<br><br>gwyddoniaeth<br><br>a<br><br>Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Lefelau a gyrhaeddir yn erbyn pob un o 12 pwnc y cwricwlwm cenedlaethol:<br><br>a<br><br>Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |

## 4.2 Y ddadl dros newid

Nododd yr adolygiad cychwynnol o dystiolaeth rhanddeiliaid nifer o faterion neu themâu pwysig a oedd yn destun pryder i randdeiliaid. Mae'r rhai sy'n berthnasol i'r cam hwn o'r adolygiad sy'n gysylltiedig â threfniadau asesu yn cynnwys:

- y dylem asesu'r hyn rydyn ni'n ei werthfawrogi
- consensws bod y trefniadau asesu yn peri dryswch, ac nad yw'r disgrifiadau o lefelau'n fawr o help
- diffyg hyder yn yr asesiadau a wneir gan athrawon ar ddiwedd cyfnod, a bod hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod yr asesiadau'n cael eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd a rheoli perfformiad
- bod terminoleg ar draws y cyfnodau yn broblem.

Mae'r themâu hyn yn cael eu trafod yn fanylach isod.

**"Dylem asesu'r hyn rydyn ni'n ei werthfawrogi."**

Er ei fod yn adnodd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn bennaf, mae llawer o frwdfrydedd dros gynnal asesiadau o lythrennedd a rhifedd, yn seiliedig ar ofynion y FfLlRh. Neges glir o'n adolygiad cychwynnol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys seminar a gynhaliwyd gydag ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 oedd y dylid 'asesu dysgwyr yn erbyn y FfLlRh a'u gallu i gymhwyso'u dysgu ar draws y cwricwlwm a thu hwnt'. Fodd bynnag, rhaid hefyd ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys gan asesu cynnwys allweddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'n briodol.

**"Mae'r trefniadau asesu'n peri dryswch."**

Mae'r adolygiad cychwynnol o dystiolaeth rhanddeiliaid yn awgrymu'n gryf bod y trefniadau asesu, hyd yn oed cyn cyflwyno'r FfLlRh a'r profion, wedi peri dryswch ac y gellid dadlau nad yw'r trefniadau bellach yn addas i'w diben. Mae'n amlwg y gellid gwneud mwy i symleiddio ein trefniadau asesu gan sicrhau eu bod yn fwy cyson â blaenoriaethau ein cwricwlwm.

Yn ogystal â hynny, rhaid i'r asesiadau weddu i'r cyfnodau datblygu. Nid ydym yn dymuno, ac nid oes angen inni, asesu'r un pethau yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc 16 oed a phlant ifanc 5 oed er enghraifft.

**"Nid oes llawer o hyder mewn asesiad athro – yn arbennig pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd."**

Mewn nifer sylweddol o'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid mynegwyd pryder ynghylch a oeddem yn defnyddio'r dulliau iawn o asesu ar gyfer y dibenion iawn ai peidio. Yn wir, aeth rhai rhanddeiliaid ymhellach ac awgrymu na ddylid defnyddio yr asesiad athro fel y mae ar hyn o bryd yng nghyd-destun atebolrwydd gan nad yw'n addas at y diben. Yn erbyn hyn, fodd bynnag, ychydig o awydd oedd am ail-gyflwyno'r profion diwedd cyfnod.

## Terminoleg

Mae'n amlwg weithiau nad yw'r derminoleg asesu'n fawr o gymorth – naill ai i rieni/gofalwyr nac i athrawon – yn enwedig yng nghyd-destun pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 (gyda'r asesiad yn cael ei ddisgrifio yn nhermau deilliannau yn y cyntaf ac yn nhermau lefelau yn yr ail). Er enghraifft, mae asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen yn disgrifio cyrhaeddiad yn nhermau 'deilliannau' (wedi eu graddio 1–6), Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn defnyddio lefelau (1–6 – gyda Lefel 3 yn gyfwerth â Deilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen ac ati) a defnyddir graddau i ddisgrifio cyrhaeddiad yng nghymwysterau TGAU.

## Adroddiad y SCYA ac Arad

Mewn perthynas ag asesu, gellir crynhoi canfyddiadau asesiad cyflym o'r dystiolaeth y SCYA ac Arad Research, a drafodwyd uchod, fel a ganlyn.

- Cymerwyd rhan mewn arolygon rhyngwladol yn aml i ganfod y safonau perfformio cenedlaethol.
- Roedd pob gwlad yn defnyddio cydbwysedd o wybodaeth am brofion ac asesiadau gan athrawon i helpu i lywio'r addysgu a'r dysgu.
- Yn gyffredinol, defnyddiwyd profion safonedig i gefnogi dulliau asesu'r athrawon ac i ategu atynt ac i gynnal dealltwriaeth ar y cyd o safonau a meini prawf yr asesiadau.
- Cynhaliwyd asesiadau allanol cenedlaethol ar ddiwedd y cyfnodau cynradd ac uwchradd (gorfodol) ym mhob un o'r pum gwlad ac eithrio y Ffindir. Roedd rhai gwledydd neu daleithiau yn defnyddio profion safonedig ychwanegol ar gyfer monitro systemau, ac ar gyfer monitro'r lefelau rhanbarthol a'r lefelau ymhlith ysgolion.
- Nid oedd un o'r pum gwlad a archwiliwyd yn profi'r carfannau bob blwyddyn, fel y bwriedir yng Nghymru o 2013 ymlaen.

## 4.3 Cynigion ar gyfer newid

**Cynigion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3: asesu llythrennedd a rhifedd**

**“Dylem asesu yr hyn rydyn ni'n ei werthfawrogi.”**

Rydym yn glir mai llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yw ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig ar gyfer y cwricwlwm yn anelu at gryfhau a chefnogi addysgu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, ac rydym felly'n cynnig ail-ffocysu ein trefniadau asesu fel eu bod yn cyd-fynd â hynny.

Fel rhan o'r broses o gyflwyno'r FfLlRh, o fis Medi 2014 bydd yn ofynnol ar ysgolion i:

- dracio cynnydd dysgwyr o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 3, yn seiliedig ar ddatganiadau cynnydd/disgwyliad a bennir yn y FfLlRh, gan gynnwys, ble y bo'n briodol, Lwybrau Dysgu
- adrodd ar hyn yn flynyddol i rieni/gofalwyr, drwy ddisgrifiad byr o gynnydd
- adrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar ganlyniadau y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

Wrth fodloni'r gofynion hyn bydd disgwyl iddynt wneud asesiadau blynyddol o gynnydd dysgwyr wrth fodloni'r disgwyliadau a bennir yn y FfLlRh.

Rydym yn bwriadu ategu hyn gyda'r gofyniad i gynnal asesiadau ar ddiwedd pob cyfnod neu gyfnod allweddol, gyda'r asesiadau hyn yn asesiadau mwy cyfunol. Bydd canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu hadrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn digwydd er mwyn ymateb i adborth gan randdeiliaid oedd yn gryf iawn o blaid newid tuag at asesu yn erbyn y FfLlRh.

Yn benodol, rydym yn cynnig y canlynol.

**Cynnig ar gyfer asesu**

- **Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dylai ysgolion adrodd ar asesiad cyfunol o gynnydd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd fel a ddiffinnir yn y FfLlRh.**
- **Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 dylai ysgolion adrodd ar asesiad cyfunol o gynnydd mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd fel a ddiffinnir yn y FfLlRh.**
- **Dylai'r asesiadau hyn gael eu hadrodd i rieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru.**

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

**5. A ydych yn cytuno y dylai ysgolion adrodd ar gynnydd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol neu Gymraeg, Saesneg a mathemateg – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn unol â'r diffiniad yn y FfLlRh i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar ddiwedd pob cyfnod addysgol?**

**Datblygu trefniadau asesu cyfunol ar gyfer Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd fel a ddiffiniwyd gan y FfLlRh.**

Er mwyn datblygu ein cynigion ar gyfer **asesu cyfunol ar gyfer Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd** gan ddefnyddio'r disgwyliadau a bennir yn y FfLlRh, rydym yn cynnal cyfres o raglenni peilot mewn ysgolion i benderfynu ar y dull mwyaf priodol ar gyfer asesu ac adrodd ar ddiwedd blwyddyn a diwedd cyfnod allweddol yn erbyn perfformiad yn erbyn y gofynion hyn. Bydd y rhaglenni peilot yn nodi modelau neu ddulliau posib y gallai ysgolion eu defnyddio i gasglu ac asesu data ar gyfer pob dysgwr, yn gysylltiedig â'r FfLlRh. Bydd y rhaglenni peilot hyn yn edrych ar sut y gall ysgolion greu asesiadau trawsgwricwlaidd ystyrlon ar gyfer pob dysgwr, sy'n pennu'r camau nesaf ar gyfer gwelliant yn glir ac yn gynhwysfawr, ac sydd hefyd yn darparu data cadarn y gellir ei ddefnyddio i asesu perfformiad ar lefel dysgwr, ysgol ac ar lefel genedlaethol. Bydd y rhaglenni peilot hyn hefyd yn llywio datblygiad Fframwaith Datblygu ac Asesu y Blynyddoedd Cynnar, i sicrhau continwwm yn yr asesu o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac ymlaen.

Mae'r broses o dreialu'r modelau asesu hyn yn digwydd mewn 'ysgolion braenaru' mewn ymateb i'r adborth o'r ymgynghoriad ar y FfLlRh, y dylai'r modelau asesu fod yn seiliedig ar arbenigedd a phrofiad yr ymarferwr. Mae gwaith tebyg yn cael ei wneud eisoes o fewn y sector ysgolion arbennig a fydd yn cael ei integreiddio â'r rhaglen hon.

Bydd y canfyddiadau o'r astudiaethau peilot yn sail i'r canllawiau ar gyfer asesu yn erbyn y FfLlRh a fydd yn anelu at:

- ddarparu modelau sy'n galluogi ysgolion i asesu cryfderau ac anghenion datblygu unigolion, dosbarthiadau a grwpiau neu gohortau blynyddoedd er mwyn codi safonau
- mynd i'r afael â sut y mae modd rheoli a lleihau y llwyth gwaith cysylltiedig o asesu yn erbyn y Fframwaith.

Mae'r Atodiad (tudalen 37) yn rhoi enghreifftiau o fodelau ar gyfer sut y byddai asesu yn erbyn y FfLlRh yn cael ei weithredu yn ymarferol. Maent wedi'u darparu at ddibenion enghreifftiol yn unig – i roi syniad i ymarferwyr o sut, yn ymarferol, y **gallai** ysgolion goladu asesiadau diwedd cyfnod/cyfnod allweddol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun y FfLlRh.

**Cynigion penodol i asesu y Cyfnod Sylfaen**

**Cynnig ar gyfer asesu – Cyfnod Sylfaen**

**Rydym yn cynnig:**

- **y dylai ysgolion barhau i gynnal asesiadau diwedd cyfnod mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol ac adrodd arnynt.**

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod angen i'r asesiadau weddu i'r cyfnodau datblygu priodol. Nid ydym yn dymuno, ac nid oes angen inni, asesu'r un pethau yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc 16 oed a phlant ifanc 5 oed er enghraifft. Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn elfen allweddol o egwyddorion ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen, ac eto mae rhanddeiliaid wedi bod yn bendant iawn na ddylid gwanhau yr elfen hon o'r asesu diwedd cyfnod oherwydd y canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Rydym felly'n bwriadu:

- cadw'r gofyniad i ysgolion gynnal ac adrodd ar asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen o Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Mae hyn hefyd yn bwysig yng nghyd-destun asesu sylfaenol y Cyfnod Sylfaen. Ers tynnu'r *Proffil asesu datblygiad plentyn* yn ôl ym mis Chwefror 2012, bu Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i asesiad sylfaenol olynol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ateb y gofyniad hwn, a gofynion cysylltiedig am ddatblygiad unedig ar draws y blynyddoedd cynnar ac yn Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gynllunio fel bod yr elfen asesu sylfaenol, a gynhelir ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn cysylltu â'r hyn a gaiff ei asesu ar ddiwedd y cyfnod, yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

Bydd angen parhaus wrth gwrs i athrawon dracio cynnydd dysgwyr o ddydd i ddydd ac yn flynyddol a defnyddio hynny i lywio'r dysgu a'r addysgu. Bydd ysgolion yn parhau i roi disgrifiad byr o gynnydd yn y Meysydd Dysgu sy'n weddill yn flynyddol.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

**6. A ydych yn cytuno y dylai ysgolion barhau i asesu ar ddiwedd cyfnod ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, yn ogystal â darparu adroddiad ar y meysydd hynny?**

| **Crynodeb o'r trefniadau asesu presennol ac arfaethedig yn y Cyfnod Sylfaen** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | **Trefniadau asesu statudol presennol** | | **Trefniadau asesu statudol arfaethedig** | |
| | Blynyddol | Diwedd cyfnod | Blynyddol | Diwedd Cyfnod |
| Dysgwr/rhiant/ gofalwr/ llywodraethwr | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn pob Maes Dysgu<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 ymlaen) | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn pob Maes Dysgu<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 ymlaen)<br><br>Asesiad athro yn erbyn:<br>• Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>• Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Datblygiad Mathemategol | Disgrifiad byr o gynnydd mewn Meysydd Dysgu, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd fel y'i diffinnir yn y FfLlRh<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 ymlaen). | Asesiad cyfunol diwedd cyfnod mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd mewn Meysydd Dysgu eraill.<br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 ymlaen) |
| Data wedi'i gasglu gan Lywodraeth Cymru | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Asesu wrth ddechrau'r Cyfnod Sylfaen<br><br>Asesiad cyfunol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | (o Flwyddyn 2 ymlaen) | ymlaen)<br><br>Asesiad athro yn erbyn:<br>• Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br>• Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Datblygiad Mathemategol | (o Flwyddyn 2 ymlaen) | diwedd cyfnod mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (o Flwyddyn 2 ymlaen) |

**Cynigion penodol ar gyfer asesu Cyfnod Allweddol 2 – Asesu diwedd cyfnod: tasgau dysgu cyfoethog**

**Asesiad athro – "Nid oes llawer o hyder mewn asesiad athro pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd."**

**Cynnig ar gyfer asesu – Cyfnod Allweddol 2**

**Rydym yn cynnig:**

- **y dylid cryfhau asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 drwy gyflwyno tasgau dysgu cyfoethog.**

Rydym yn parhau o'r farn bod asesiad athro yn allweddol i lywio dysgu ac addysgu – barn sy'n cael ei chefnogi nid yn unig gan adroddiad Cyngor Ymchwil Addysgol Awstralia (ACER) (gweler tudalen 31) ond hefyd gan adolygiad Daugherty[1] – yn ogystal â bod yn nodwedd o awdurdodaethau sy'n perfformio'n uchel wedi'u hadolygu gan y SCYA. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r adolygiad cychwynnol o randdeiliaid bod llawer o drafod o ran pa mor ddibynadwy yw asesiadau athrawon, a bod diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn broblem benodol o ran ei werth fel data i gynorthwyo gyda pontio, yn ogystal ag yng nghyd-destun atebolrwydd lleol.

Caiff asesiadau athrawon ar draws pob cyfnod ei drafod yn fanylach ar ddiwedd yr adran hon. Mae'r cynnig canlynol yn gysylltiedig yn benodol â heriau asesiad athro fel a nodwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â Chyfnod Allweddol 2.

**Yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid yn ogystal â tystiolaeth sy'n cael ei gynnwys yn adroddiad ACER, rydym yn cynnig ein bod yn cryfhau asesiad athro diwedd Cyfnod Allweddol 2 drwy:**

- **gyflwyno 'tasgau cyfoethog' trawsgwricwlaidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.**

Ystyr tasg ddysgu gyfoethog yw archwilio pwnc yn hollol benagored. Byddai tasgau dysgu cyfoethog yn weithgareddau penodol y byddai myfyrwyr yn eu cyflawni sydd o werth ac o ddefnydd yn y byd go iawn, ac y byddai modd i fyfyrwyr ddangos eu dealltwriaeth o syniadau a sgiliau pwysig a'u defnydd ohonynt. Byddai tasg ddysgu gyfoethog yn annog myfyrwyr i fod yn hyblyg wrth feddwl a rhesymu, byddai'n seiliedig ar broblem, ac yn gysylltiedig â'r byd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Er enghraifft, gallai tasg ddysgu gyfoethog yn Mlwyddyn 6 olygu trefnu taith ar gyfer eu dosbarth neu ar gyfer grŵp penodol o bobl. Wrth ddewis y lleoliad

[1].Llwybrau Dysgu Drwy Asesu Statudol: Cyfnodau Allweddol 2 a 3 Grŵp Adolygu Asesiad Daugherty – Adroddiad Terfynol – Mai 2004, cyhoeddwyd Mai 2004.

byddai angen i ddysgwyr nodi ystod o faterion, gan gynnwys pa mor addas yw, opsiynau teithio, hygyrchedd a phwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol. Byddai disgwyl i ddysgwyr gyflwyno prisiau a rhoi rhesymau dros y lleoliad o'u dewis.

Byddai'r tasgau hyn yn galluogi athrawon i asesu ystod o sgiliau sy'n cael eu pennu yn y FfLlRh (ac yn y dyfodol o bosib y fframwaith sgiliau ehangach) yng nghyd-destun yr ystod o bynciau yn y cwricwlwm y mae'n rhaid i blant eu hastudio. Byddai'r tasgau'n cael eu hasesu gan athrawon, ond yn cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, a'u hategu gan gynllun marcio a awgrymir. Byddent yn cael eu defnyddio gan athrawon a chonsortia fel darn ychwanegol o dystiolaeth i gynorthwyo gyda'r broses o asesu perfformiad dysgwyr mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, er mwyn cyrraedd barn gyfunol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Bydd y 'tasgau cyfoethog' yn cael eu cymedroli'n gadarn, o bosib drwy samplu, er mwyn cynorthwyo athrawon a chyflwyno elfen ychwanegol o drylwyredd i'r system. Byddai hyn yn rhoi elfen o gysondeb ledled Cymru, a gellid dadlau bod hyn yn ddiffygiol ar hyn o bryd.

Pe byddent yn cael eu cyflwyno, gellid defnyddio deunyddiau dysgu cyfoethog i'w cefnogi. Gellid cynllunio'r rhain i'w defnyddio wrth ddysgu ac addysgu o ddydd i ddydd. Gellid cynnwys y deunyddiau mewn cynlluniau dysgu neu gynlluniau gwaith yn y dyfodol.

Ein bwriad yw treialu'r trefniadau newydd gyda ysgolion cyn eu cyflwyno – bydd enghreifftiau o sut y gallai hyn weithio yn ymarferol yn cael eu hastudio yng nghyd-destun y treialon.

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

**7. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys tasgau dysgu cyfoethog fel rhan o fodel asesu cyffredinol ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2?**

| Crynodeb o'r trefniadau asesu presennol ac arfaethedig yng Nghyfnod Allweddol 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 2** | | | | |
| | **Trefniadau asesu statudol presennol** | | **Trefniadau asesu statudol arfaethedig** | |
| | Blynyddol | Diwedd cyfnod | Blynyddol | Diwedd cyfnod |
| Dysgwr/rhiant/ gofalwr/ llywodraethwr | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn 11 pwnc<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn 11 pwnc<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Asesiad cyfunol yn erbyn:<br>• Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth | Disgrifiad byr o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd ym mhynciau y cwricwlwm cenedlaethol | Asesiad cyfunol diwedd cyfnod mewn Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg a mathemateg.<br>Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn pynciau eraill<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.<br>'Tasgau cyfoethog' trawsgwricwlaidd |
| Data wedi'i chasglu gan Lywodraeth Cymru | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Disgrifwyr lefel – Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (Cymraeg ail iaith yn opsiynol)<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Asesiad cyfunol diwedd cyfnod mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg newydd (gan gynnwys llythrennedd a rhifedd) (Cymraeg ail iaith yn opsiynol)<br><br>Sgorau a pherfformiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhifedd Cenedlaethol | | cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |

**Cynigion penodol ar gyfer asesu Cyfnod Allweddol 3**

**Cynnig ar gyfer asesu – Cyfnod Allweddol 3**

**Rydym yn cynnig:**

- **y dylem gadw'r gofyniad i ysgolion adrodd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn y rhaglenni astudio newydd Cymraeg, Saesneg a mathemateg a rhaglenni astudio presennol gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith**
- **y dylem ddileu'r gofyniad i ysgolion adrodd i Lywodraeth Cymru ar weddill y pynciau sylfaen.**

Rydym wedi ymrwymo i symleiddio'r trefniadau asesu ble y bo'n bosibl. Er ein bod yn cydnabod bod adrodd i rieni/gofalwyr a dysgwyr ar y cynnydd y maent wedi'i wneud ym mhob pwnc yng Nghyfnod Allweddol 3 yn bwysig ar gyfer llywio y dewis o TGAU, mae llai o reswm dros adrodd i Lywodraeth Cymru ar hyn i gyd, gan bod ysgolion yn y pen draw yn cael eu dal i gyfrif gan eu canlyniadau Cyfnod Allweddol 4.

O ystyried bod Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith yn ofynion statudol yng Nghyfnod Allweddol 4, rydym yn cynnig:

- **cadw'r gofyniad i ysgolion adrodd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn y pynciau hyn**

  **a**

- **dileu'r gofyniad, ac felly leihau'n sylweddol y baich adrodd, i adrodd inni ar y pynciau sy'n weddill, sef dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol a ieithoedd tramor modern.**

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

**8. A ydych yn cytuno â'r argymhellion ein bod yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cadw'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg a mathemateg newydd, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith ac yn dileu'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad o gynnydd ym mhob un o'r pynciau sylfaen statudol eraill?**

**Dibynadwyedd asesiad athro**

Mae gwerthusiad o'r trefniadau presennol ar gyfer asesiadau athrawon wedi'u cynnal gan ACER. Mae adroddiad ACER yn nodi bod gan Gymru brif elfennau system asesu ansawdd o safon, ond os yw'r system bresennol i wireddu ei photensial mae angen rhagor o amser a buddsoddi cyllid ac ymdrech i sicrhau hyn. Mae'r prif argymhellion yn cynnwys sicrhau darpariaeth o fewn y system i fesur pa mor ddibynadwy yw barn athro, magu hyder y rhanddeiliad yn nilysrwydd y system, sicrhau gwell dealltwriaeth o bolisïau a'u rhoi ar waith yn well ar lefel athro, ysgol a chlwstwr, a defnyddio cymedroli cenedlaethol, rhaglen hyfforddi genedlaethol a diwygio disgrifyddion lefel i helpu i wella'r dull o weithredu'r system.

Mae canfyddiadau adolygiad ACER yn gyson â ffynonellau gwybodaeth eraill, er enghraifft, adolygiad thematig Estyn 2010 o asesiadau athrawon[2]. Mae'r ddau adroddiad hwn yn nodi'r angen i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r system asesiad athro, ar lefel leol a rhanbarthol, a'r dull o'i gweithredu, a phwysigrwydd mewnbwn allanol i'r system honno. Mae'r ddau hefyd yn trafod swyddogaeth llywodraeth leol wrth gynnal asesiadau athrawon, gydag Estyn yn nodi effaith bositif awdurdodau lleol pan fyddant yn cymryd rhan amlwg yn y broses tra bod ACER yn nodi nad oedd swyddogaeth awdurdodau lleol yn ddigon clir a heb ei blaenoriaethu'n ddigonol.

I helpu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â dibynadwyedd a dilysrwydd asesiad athro rydym yn ystyried ail-gyflwyno rhaglen o gymedroli allanol, wedi'i chryfhau drwy roi mwy o ran i awdurdodau lleol, drwy'r pedwar consortia rhanbarthol wrth ddatblygu a gweithredu'r rhaglen.

Byddai cyfraniad arfaethedig yr awdurdod lleol/consortia yn y broses o gymedroli a sicrhau ansawdd asesiad athro yn gweithredu ar dair lefel. Ar y lefel gyntaf, byddai awdurdodau lleol/consortia yn gweithio o fewn a thrwy grwpiau clwstwr, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ysgolion o fewn y consortia yn bodloni'r holl ofynion statudol, wedi'u cynorthwyo gan newidiadau i'r dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig ag asesiad athro i gryfhau'r mewnbwn o gymedroli fel clwstwr ar benderfyniadau ar lefel ysgol. Byddai hyn yna'n cael ei atodi ar lefel ranbarthol gan gymedroli o dan arweiniad consortia o gasgliadau ar hap o waith dysgwyr, gyda'r nod o wella perfformiad system, wedi'u hategu gan ddyletswyddau statudol newydd ar awdurdodau lleol i wella safonau asesiadau athrawon yn eu hardaloedd, a sicrhau bod pobl yn hyderus ynddynt. Yn olaf, byddai gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo gan y defnydd o adrodd blynyddol ar asesiad athro ar lefel awdurdod lleol/consortia at ddibenion gwybodaeth i'r cyhoedd ac atebolrwydd.

---

[2] *Arfarniad o’r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3* (Estyn, 2010) http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/1201.2/Arfarniad%20o’r%20trefniadau%20i%20sicrhau%20cysondeb%20asesiadau%20athrawon%20yn%20y%20pynciau%20craidd...%20-%20Mawrth%202010/?navmap=30,163

I fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu nodi ynghylch dealltwriaeth rhanddeiliaid o'u swyddogaeth yn y broses, byddai'r system asesu hon yn cael ei chefnogi gan broses o'r dechrau i'r diwedd, sy'n pennu'n fanwl yn union beth sy'n ofynnol gan ysgolion ac awdurdodau lleol/consortia o ran safoni, asesu a chymedroli, gan gwmpasu y disgwyliadau a'r broses. Bydd canllaw ar gyfer pob cam yn cael ei atodi, gan ddefnyddio TGCh i sicrhau bod y cyflwyniad mor hygyrch â phosib. Caiff manylion pellach ar hyn eu cyhoeddi maes o law.

| Crynodeb o'r trefniadau asesu presennol ac arfaethedig yng Nghyfnod Allweddol 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trefniadau asesu statudol presennol** | | **Trefniadau asesu statudol arfaethedig** | |
| | Blynyddol | Diwedd cyfnod | Blynyddol | Diwedd cyfnod |
| Dysgwr/ rhiant/ gofalwr/ llywodraethwr | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn 12 pwnc<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Asesu yn erbyn y FfLlRh (o fis Medi 2014) | Disgrifiad byr o gynnydd yn erbyn 12 pwnc<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Asesiad athro yn erbyn:<br>• Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>• Cymraeg ail iaith, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol a ieithoedd tramor modern (pynciau sylfaen) | Disgrifiad byr o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd yn 12 pwnc y cwricwlwm cenedlaethol | Asesiad cyfunol diwedd cyfnod mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg (gan gynnwys y llythrennedd a rhifedd), gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith<br><br>Disgrifiad byr o gynnydd ym mhynciau statudol y cwricwlwm cenedlaethol sy'n weddill<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |
| Adrodd i Lywodraeth Cymru | | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol | Asesiad cyfunol diwedd cyfnod mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Asesiad athro yn erbyn:<br><br>• Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (pynciau craidd)<br>• Cymraeg ail iaith, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol a ieithoedd tramor modern (pynciau sylfaen) | | (gan gynnwys llythrennedd a rhifedd), gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith<br><br>Sgorau a pherfformiad cymharol yn erbyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |

## 5. Cynigion ar gyfer gweithredu

Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'n cynlluniau ar gyfer gweithredu cam 1 yr adolygiad hwn. Gallai'r amserlen derfynol, wrth gwrs, gael ei newid yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar bob un o'r cynigion unigol. Bwriedir i'r amserlen fod yn realistig ac mae'n cydnabod yr hyn y mae'r rhanddeiliaid wedi bod yn dweud wrthym ynghylch yr angen i weithredu gam wrth gam. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynigion hyn.

### Amserlen weithredu

| Cynnig | 2013–14 | 2014–15 (Medi) | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| **Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol estynedig a'r rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg, a mathemateg estynedig** | Datblygu ac ymgynghori | Cyflwyno'n anstatudol | Cyflwyno'n statudol |
| **Sgiliau ehangach (y camau gweithredu i'w hystyried yng ngham 2)** | | | |
| **Asesu cyfunol yn erbyn y FfLlRh** | Datblygu ac ymgynghori | Cyflwyno'n anstatudol | Cyflwyniad statudol (asesiadau cyfunol cyntaf haf 2016) |
| **Tasgau cyfoethog** | Datblygu, treialu ac ymgynghori | Cyflwyno'n anstatudol | Cyflwyno'n statudol |

**Cwestiwn yr ymgynghoriad**

**9. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a ydych yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru?**

## Atodiad: Modelau posibl ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd

Enghraifft yn unig yw'r dull hwn er mwyn rhoi trosolwg o sut allai'r drefn o asesu'r FfLlRh ar ddiwedd cyfnod allweddol weithio mewn egwyddor. Y bwriad yw awgrymu un enghraifft posibl ar gyfer darparu asesiad diwedd cyfnod allweddol ar y FfLlRh fel y mae ar hyn o bryd. Nid yw'n adlewyrchu'r cynnig i ymestyn y rhaglenni astudio presennol a ddisgrifir yn adran 3.2 y ddogfen ymgynghori hon.

# Enghraifft o bortffolio llythrennedd diwedd cyfnod allweddol

| Agweddau | | Dysgwr A | Sylwadau | Dysgwr B | Sylwadau | Dysgwr C | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafaredd | 1. Siarad | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol – melyn mwy na thebyg | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol – gwyrdd mwy na thebyg | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol – glas mwy na thebyg |
| | 2. Gwrando | | | | | | |
| | 3. Cydweithio a thrafod | | | | | | |
| Darllen | 4. Strategaethau darllen | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol - coch mwy na thebyg | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol – gwyrdd mwy na thebyg | | Yr athro yn cytuno ar y raddfa gyffredinol – glas mwy na thebyg |
| | 5. Darllen a deall | | | | | | |
| | 6. Ymateb a dadansoddi | | | | | | |
| Ysgrifennu | 7. Ystyr, pwrpas, darllenwyr | | Byddai'r holl elfennau hyn yn destun cymedroli allanol – bydd y portffolio gwaith hwn yn cynnwys sawl darn o waith (rhwng 6–10 fwy na thebyg) ar draws yr ystod eang o bynciau, ac felly bydd yn asesiad coch fwy na thebyg | | Byddai'r holl elfennau hyn yn destun cymedroli allanol – bydd y portffolio gwaith hwn yn cynnwys sawl darn o waith (rhwng 6–10 fwy na thebyg) ar draws yr ystod eang o bynciau, ac felly bydd yn asesiad gwyrdd fwy na thebyg | | Byddai'r holl elfennau hyn yn destun cymedroli allanol – bydd y portffolio gwaith hwn yn cynnwys sawl darn o waith (rhwng 6–10 fwy na thebyg) ar draws yr ystod eang o bynciau, ac felly bydd yn asesiad glas fwy na thebyg |
| | 8. Strwythur a threfn | | | | | | |
| | 9. Iaith | | | | | | |
| | 10. Llawysgrifen, gramadeg, atalnodi, sillafu | | | | | | |
| **Lliw terfynol** | | | | | | | |

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Coch | Nid yw'r dysgwr wedi cyrraedd y lefel disgwyliad hwn. |
| Oren | Mae'r dysgwr wedi dangos mewn rhai achosion eu bod wedi cyrraedd y lefel disgwyliad hwn ond nid yn gyson ac efallai bod angen cymorth. |
| Gwyrdd | Dysgwr wedi dangos eu bod wedi cyrraedd ac atgyfnerthu'r disgwyliad hwn. |
| Glas | Y dysgwr wedi cyrraedd y disgwyliad hwn ac yn gweithio ar ddisgwyliadau o grŵp blwyddyn uwch. |

## Sut y gellid defnyddio'r dull hwn i gytuno ar raddfa diwedd Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer pob dysgwr

**Cam 1: Asesu ym mhob maes pwnc ar gyfer pob dysgwr yn erbyn pob disgwyliad yn y FfLlRh.**
Byddai athrawon yn defnyddio dull mwy manwl (heb ei ddarparu) sy'n nodi, ar gyfer eu maes pwnc, a yw'r dysgwyr wedi datblygu'r sgiliau a ddisgrifiwyd yn natganiadau disgwyliadau'r FfLlRh ac ar ba lefel. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn ysgol wrth i ddysgwyr ddangos a chryfhau eu sgiliau. Bydd yr ysgolion yn defnyddio proses o fapio'r cwricwlwm i gynllunio pa un o ddatganiadau disgwyliadau'r FfLlRh a fydd yn cael ei gwmpasu a'i ddatblygu ym mhob maes pwnc. Felly, efallai na fydd angen i bob pwnc roi dyfarniad ar bob datganiad disgwyliad.

**Cam 2: Cytuno ar asesiad trawsgwricwlaidd ar lefel agwedd**
Byddai athrawon yn cyrraedd ac yn defnyddio eu hasesiadau lefel cyrhaeddiad penodol i bwnc i gytuno ar raddfa ar gyfer pob **agwedd** o'r FfLlRh ar gyfer pob dysgwr (gellid delio â llythrennedd a rhifedd mewn gwahanol gyfarfodydd). Byddai hyn yn cynrychioli barn yr holl athrawon perthnasol ynghylch y lefel a gyrhaeddwyd ar bob agwedd ar draws pynciau'r cwricwlwm. Byddai rhagor o ganllawiau yn cael eu darparu ar sut y gallai athrawon gyrraedd y dyfarniad cytûn hwn.

**Cam 3**
Gan ddefnyddio'r dyfarniad cytûn hwn ar gyfer pob agwedd byddai athrawon yn defnyddio'r dulliau a bennir uchod i gytuno ar un raddfa gyffredinol ar gyfer pob dysgwr ar gyfer llythrennedd yn ogystal â rhifedd. Darperir canllawiau er mwyn helpu'r athrawon i gytuno ar y dyfarniad cyffredinol hwn.

**Cam 4**
Bydd y dyfarniad terfynol yn cael ei ddefnyddio i bennu dyfarniad cyffredinol ar gyfer y dysgwr dan sylw. Gallai hyn gynnwys defnyddio graddau:

- coch = C
- melyn = B
- gwyrdd = A
- glas = A+

neu ddisgwyliadau grŵp blwyddyn fel a ddisgrifir yn y FfLlRh, e.e. ar gyfer dysgwr Blwyddyn 6:

- coch = gweithio ar lefel Blwyddyn 4 neu is
- melyn = gweithio ar lefel Blwyddyn 5
- gwyrdd = gweithio ar lefel Blwyddyn 6
- glas = gweithio ar lefel Blwyddyn 7 neu uwch.